

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

3ydd Chwefror, 2021.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 8fed Chwefror, 2021** am 7.30 y.h. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

RHAGLEN

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
2. **YMDDIHEURIADAU**
3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn ffurflenni.
4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWDYD I 14eg IONAWR, 2021.**
Copi'n amgaeedig. "A"
Materion yn codi:
 1. **Eitem 74** cymal I – Materion lechyd
Ni fydd Dr. O.G. Morris yn ymuno â'r Cyngor y mis hwn.
 2. **Eitem 76** – Materion Ffyrdd a Llwybrau
 - (a) Ymateb Peiriannydd Rhanbarthol Ardal Dwyfor i gŵyn ynglyn a ffordd o Graig Fael i Graig Ewig fod "y tyllau ar y ffordd yma wedi ac yn derbyn sylw i'r gorau y gellir. Byddwch yn ymwybodol o ohebiaeth flaenorol am y lle cyn penodol sy'n eitem yn codi'n aml gennych, fod y ffordd wedi ei chynnwys ar restr waith ailwynebu dymunol Ardal Dwyfor. Mae'r rhestr yma yn aros am yn ôl i ddisgwyl sylw oherwydd diffyg cyllideb cyfalaf strwythurol."
 - (b) Ymateb Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, i gymal (a) a (b) o'r cofnodion.
 3. **Eitem 78 – Adroddiad yr Is-bwyllgor ariannol a gynhaliwyd yn gynharach ar y noson**
E-bost dyddiedig 14eg Ionawr, 2021, gan Bennaeth Cyllid Cynorthwyol, Cyngor Gwynedd. 'Rydym eisioes wedi hysbysu'r Swyddog mai ar 8fed Chwefror, 2021, y byddai'r Cyngor yn trafod yr e-bost.
Copi'n amgaeedig. "B"
 4. **Eitem 82 – Diwrnod gweithwyr y GIG, Gofal Cymdeithasol a Rheng flaen – 5ed Gorffennaf, 2021**
I ystyried e-bost dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru.
Copi'n amgaeedig. "C"

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd ‘Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu’.

- (a) Cais C21/0018/32/DT – estyniad deulawr ar y cefn – Trofa, Sarn Mellteyrn
- (b) Cais C21/0028/32/LL – dymchwel sied amaethyddol bresennol ac adeiladu sied amaethyddol newydd – Cae Du, Brynmawr
- (c) Cais 20/0124/32/LL – cynlluniau diwygiedig – dymchwel yr adeiladau garej a bloc toiledau presennol. Datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys codi siop garej newydd gyda gwasanaeth gwerthu prydau parod, blaengwrt a phympiau tanwydd – Pen-y-bont Garage, Sarn Mellteyrn.

6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

7. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**

Yn anffodus ni ystyriwyd y ceisiadau isod yng nghyfarfod Ionawr a gofynnir i'r Cyngor, os yn bosibl, eu hystyried yn y cyfarfod hwn.

I ystyried y ceisiadau a ganlyn:

“CH”

Cyfeillion Mynwent Mellteyrn

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2021 (os yr ydych eisiau gweld y cyfrifon a.y. a wnewch roi gwybod i mi).

8. **AWDURDOD I DALU**

I awdurdodi'r taliad a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor. Llanw Llyn – hysbyseb - gwybodaeth o'r gôst am ddau fis. Awdurdod eisoes wedi roddi i'w dalu.

9. **LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Neges er gwybodaeth fod swm o £229 wedi ei glustnodi am y flwyddyn 2021/22 ar gyfer barbio llwybrau cyhoeddus yng nghymdeithas Botwnnog.


10. **CYNGOR TREF NEFYN**

Llythyr gan Gadeirydd Cyngor Tref Nefyn.

Copi'n amageedig.

“D”

Yn gywir,

 Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR
Y CYNGHORWYR**

David Brunelli
Dylan Parry Jones
Carys E. Williams

Carys H. Evans
Ifor Owen
Glenys Williams

Elin Hughes
Glyn Roberts
Siôn Williams

Gwenan Griffith
Michael Strain

